**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

**ALLDRO AMCANOL 2013-2014**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn i roi i'r Aelodau yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2013-14.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro a'i reoli'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £497,770 o danwariant a grëwyd er mwyn gwrthbwyso pwysau cost yn 2014-15. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2013, ac yn amcangyfrif y gwariant am 7 mis olaf y flwyddyn. Dylid nodi bod 7 mis o'r flwyddyn i fynd eto, a gallai cyfnod o dywydd garw olygu y bydd angen adnoddau ychwanegol i ariannu ffioedd troi allan. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol hefyd o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru dros y blynyddoedd i ddod. Bydd lefel yr arbedion a ddisgwylir yn golygu na fydd yn hyfyw i sicrhau'r rhain drwy newidiadau gweithredol yn unig, ac efallai y bydd raid i ran o'r arbedion ddod o'r cronfeydd a gronnwyd o danwariannau'r blynyddoedd a fu. Bydd yr Aelodau'n ymwneud â'r broses o osod y gyllideb dros y misoedd nesaf, a bydd raid gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r materion hynny, felly hyd oni fydd y penderfyniadau wedi eu gwneud, dyma argymell bod yr Aelodau'n gwneud dim ond nodi'r tanwariant ar hyn o bryd.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Yn 2013-14, roedd y gyllideb ar gyfer "Diffoddwyr Tân–Amser Cyflawn" yn cynnwys targed o £500k o arbedion i'w sicrhau drwy gyflwyno system gylchrestru newydd i ostwng nifer y diffoddwyr tân sydd eu hangen i ofalu am bob gwylfa, a'r gostyngiad i ddod drwy gyfraddau ymadael naturiol. Mae'r gostyngiad yn nifer y diffoddwyr tân yn parhau, ac ar hyn o bryd mae'n dangos gorwariant ar linell y gyllideb "Diffoddwyr Tân-Amser Cyflawn" ar gyfer 2013-14. Disgwylir y bydd hyn wedi ei ddatrys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

6 Y tanwariant amcangyfrifedig ar ddiffoddwyr tân y system RDS yw £443k. Mae ymgyrch recriwtio ddiweddar wedi codi'r niferoedd, ond mae'r nifer yn dal yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae rhan o'r arbedion ar ffioedd digwyddiadau ac ymarfer yn cael ei ddefnyddio i wrthbwyso'r gost o brofi cynllun oriau ychwanegol i ddiffoddwyr tân, i wella argaeledd yn y gorsafoedd gwledig.

7 Gellir priodoli'r tanwariant ar "Staff Cefnogol" i ailstrwythuriad a arweiniodd at swyddi gwag yn cael eu llenwi'n hwyrach na'r amcangyfrif, a bod nifer o swyddi heb gael eu llenwi ar y pryd.

8 Mae'r tanwariant ar gyllideb y "Prif Swyddogion" yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a gafodd ei llenwi ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

9 Mae'r gorwariant ar "Bensiynau Llywodraeth Leol" oherwydd i daliad annisgwyl, ychwanegol am anaf gael ei wneud yn ystod y flwyddyn.

## Safleoedd

10 Ar gyllideb y safleoedd, y prif faes gorwariant fydd costau atgyweirio a chynnal a chadw. Mae'r gorwariant oherwydd cynnydd yng nghost contractau cynnal a chadw blynyddol, sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y portffolio eiddo yn cael ei gadw i'r safon ofynnol a'i fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

## Cludiant

11 Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod gorwariant o £98k yn y gyllideb Cludiant. Roedd hyn wedi ei ragweld fel cost am y treial gyda'r gorsafoedd gwledig y cyfeirir ato ym mharagraff 6, a chaiff ei wrthbwyso gan y tanwariant ar linell cyllideb diffoddwyr tân y system RDS.

## Cyflenwadau

12 Bydd gorwariant ar "Gyfarpar yr Ochr Weithredol", yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â chontractau offer hydrolig a oedd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol.

13 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau cyfathrebu oherwydd gweithredu'r system newydd Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA).

14 Mae'r gorwariant ar gostau cyfrifiaduron oherwydd y costau datblygu meddalwedd sy'n gysylltiedig â'r system Fleetwave newydd. Neilltuwyd arian y llynedd, mewn cronfa wrth gefn, i ymorol am y costau datblygu, ond oherwydd y tanwariant yn gyffredinol, efallai na fydd angen defnyddio'r gronfa wrth gefn.

15 Mae gorwariant ar "Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth" gan ei fod yn cynnwys ffi am ddefnyddio'r cyfleusterau yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Mae'r orsaf yn gweithredu fel cyfrif masnachu, felly o bryd i'w gilydd bydd yr incwm yn amrywio am i fyny ac am i lawr ac os na fydd yn ymorol am yr holl wariant, caiff ei godi ar y cyfrif refeniw. Yn 2013/14 rhagwelir y bydd yn £15k.

### Cyllido Cyfalaf

16 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi ar brosiect Wrecsam, sef adroddiad arall ar yr agenda.

### Incwm

17 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn fwy na'r gyllideb.

## Argymhelliad

18 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig.